



Y Gwasanaeth Dysgu

Z  
O  
H  
G  
H  
D  
E  
R  
F  
E  
C

Addysgu Plant a Phobl Ifanc  
ag  
Anghenion Addysgol Arbennig

Strategaeth, Polisi  
a  
Gweithdrefnau

2013



# Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Cwmpas a Diffiniadau
3. Datganiad o Weledigaeth
4. Nodau ac Amcanion
5. Rolau a Chyfrifoldebau
6. Strategaethau ar gyfer Adnabod a Bodloni Anghenion Addysgol Arbennig
7. Strategaethau ar gyfer Darparu Addysgu a Chymorth Effeithiol
8. Strategaethau ar gyfer Addysgu Disgyblion ag AAA o fewn Ysgolion Prif Ffrwd yr Awdurdod
9. Strategaethau ar gyfer Gweithio mewn Partneriaeth â Disgyblion, Rhieni, Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar, Ysgolion ac Asiantaethau Allanol
10. Strategaethau ar gyfer Gweithio mewn Partneriaeth â Darparwyr eraill i drefnu Addysg a Gwasanaethau Arbenigol, o Safon Uchel
11. Strategaethau ar gyfer Monitro a Gwerthuso Data ar Ganlyniadau i Blant a Phobl Ifanc ag AAA
12. Monitro a Gwerthuso Effaith y Strategaeth AAA

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu strategaeth Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer addysgu plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (AAA).

Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar bolisiau a gweithdrefnau'r awdurdod ar gyfer adnabod a chefnogi AAA, gan gynnwys yr amrywiaeth o ddarpariaeth sydd ar gael, a'r cyllid i fodloni anghenion.

Mae'r strategaeth AAA yn rhan annatod o fframwaith yr awdurdod ar gyfer bodloni anghenion pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 ac 19 oed.

Mae'n chwarae rôl hollbwysig yng ngwaith yr awdurdod i sicrhau safonau uchel i bawb a chaiff ei gweithredu ochr yn ochr â pholisiau ar gyfer gwella ysgolion a chynhwysiant.

Mae blaenoriaethau addysgol yr awdurdod yn cynnwys hyrwyddo safonau uchel i bob dysgwr, cyflawni lefelau uchel o bresenoldeb, atal gwaharddiadau a darparu cymorth o safon uchel i ddysgwyr ag anghenion unigol.

Mae'r strategaeth hon yn cadarnhau ymrwymiad yr awdurdod at gynnal a gwella'r blaenoriaethau hyn.

Polisi'r awdurdod yw addysgu pob disgybl yn ei ysgolion prif ffrwd er mwyn iddynt allu cyrraedd eu potensial a sicrhau eu lles.

Mae'r polisi hwn wrth wraidd ei strategaethau Gwella Ysgolion, Cynhwysiant ac AAA.

Mae'r strategaeth, y polisiau a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y ddogfen hon yn ystyried yr holl ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol, gan gynnwys Cod Ymarfer AAA Cymru (2002) a'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Yn unol â chyfeiriad polisi cenedlaethol, mae'r awdurdod wedi ymrwymo i wneud darpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA heb ddatganiad lle y bo'n bosibl.

Ers 2009, mae nifer y disgyblion sydd angen datganiad i sicrhau darpariaeth wedi lleihau'n sylweddol. Gwireddwyd y lleihad hwn drwy broses fanwl a hynod effeithiol o gynllunio a darpariaeth lefel gwasanaeth a chan ysgolion.

Mae'r awdurdod hefyd yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig yn y ddogfen 'Ymlaen mewn Partneriaeth dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol' (Llywodraeth Cymru, 2012), a bydd yn adolygu'r ddogfen strategaeth hon pan gaiff y newidiadau hyn eu cadarnhau.

## 2. Cwmpas a Diffiniadau

Mae'r strategaeth, y polisiau a'r gweithdrefnau yn y ddogfen hon yn gymwys i bob plentyn a pherson ifanc ag AAA rhwng 0 a 19 oed sydd:

- o dan oedran ysgol statudol ac sy'n byw yn yr awdurdod;
- ar gofrestr un o leoliadau neu ysgolion yr awdurdod; neu
- yn byw yn yr awdurdod ac ar gofrestr ysgol sydd y tu allan i'r awdurdod.

### Anghenion Addysgol Arbennig

Mae'r fframwaith statudol ar gyfer AAA wedi'i amlinellu yn Nedd Addysg 1996 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae gan blant **anghenion addysgol arbennig**<sup>2</sup> os oes ganddynt:

- anhawster dysgu sy'n golygu bod angen gwneud darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

Mae gan blant **anhawster dysgu**<sup>3</sup> os oes ganddynt:

- anhawster sylweddol mwy wrth ddysgu na'r mwyafrif o blant o'r un oedran;
- anabledd sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag gwneud defnydd o gyfleusterau addysgol o'r math a ddarperir fel arfer i blant o'r un oedran mewn ysgolion o fewn ardal yr Awdurdod Addysg; neu
- maent o dan oedran ysgol gorfodol ac wedi'u cynnwys o fewn y diffiniadau uchod neu byddent wedi'u cynnwys pe na fyddai darpariaeth addysgol arbennig yn cael ei gwneud ar eu cyfer.

Mae Cod Ymarfer AAA Cymru yn datgan bod anghenion wedi'u cynnwys o fewn y meysydd cyffredinol canlynol:

- Gwybyddiaeth a Dysgu;
- Datblygiad Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol;
- Cyfathrebu a Rhyngweithio; a
- Synhwyraidd a/neu Gorfforol.

<sup>2</sup> Cod Ymarfer AAA Cymru (2002)

<sup>3</sup> Adran 312 Deddf Addysg 1996

### **Mae gan berson anabl<sup>4</sup>:**

- nam corfforol neu feddyliol; ac
- mae'r nam yn cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu'r person hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

### **Mae darpariaeth addysgol arbennig<sup>5</sup> yn golygu:**

- i blant dwy oed neu'n hŷn, y ddarpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol fel arall i'r, ddarpariaeth addysgol a wneir fel rheol ar gyfer plant o'u hoedran nhw mewn ysgolion a gynhelir gan yr AALI, ac eithrio ysgolion arbennig, yn yr ardal; neu
- i blant o dan ddwy oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath.



<sup>4</sup> Deddf Cydraddoldeb 2010

<sup>5</sup> Adran 312, Deddf Addysg 1996

### 3. Datganiad o Weledigaeth

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i godi cyflawniad a chau'r bwlch i blant a phobl ifanc ag AAA er mwyn iddynt allu cyrraedd y safonau, lles a chyfleoedd bywyd hirdymor gorau posibl.

Cred yr awdurdod fod gwella canlyniadau i ddisgyblion a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn gyfrifoldeb i bawb.

Felly, mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, rhieni ac asiantaethau eraill i sicrhau bod pob plentyn yng Ngheredigion, beth bynnag fo'i anghenion, yn cael ei werthfawrogi, yn llwyddo yn ei ddysgu, yn cyrraedd ei botensial a'i nodau personol ac yn gwneud y mwyaf o'i gyfleoedd i gael bywyd llawn ac ystyrlon.

Gwireddir y weledigaeth hon drwy ddarparu:

- addysg gynhwysol mor agos i'r cartref ac i'r gymuned leol â phosibl;
- asesiad cynnar a chywir o anghenion;
- ystod eang, gytbwys a pherthnasol o gyfleoedd dysgu;
- ystod o ddarpariaeth prif ffrwd, wedi'i chyfoethogi ac arbenigol;
- cymorth, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i ysgolion;
- gwybodaeth amserol, gywir a pherthnasol i rieni a gofalwyr;
- adnoddau a gwasanaethau sy'n briodol, effeithiol, teg, tryloyw, cyson, effeithlon ac atebol;  
a
- mynediad i weithgareddau cymdeithasol a hamdden yn y gymuned.

#### 4. Nodau ac Amcanion

Nod cyffredinol y strategaeth hon yw sicrhau cyflawniadau addysgol a lles gorau posibl pob disgybl ag AAA drwy ddarparu addysg berthnasol, gynhwysol ac effeithiol sy'n bodloni eu hanghenion yn llawn.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd yr awdurdod yn:

- a. adnabod a bodloni anghenion disgyblion cyn gynted â phosibl;
- b. darparu addysgu a chymorth effeithiol i bob disgybl ag AAA yn unol â gofynion statudol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chod Ymarfer AAA Cymru 2002;
- c. addysgu disgyblion ag AAA o fewn ysgolion prif ffrwd yr awdurdod lle bynnag y bo'n bosibl;
- ch. gweithio mewn partneriaeth â disgyblion, rhieni, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion ac asiantaethau allanol;
- d. gweithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill i drefnu addysg a gwasanaethau arbenigol, o ansawdd uchel ar gyfer yr ychydig ddisgyblion hynny nad oes modd bodloni eu hanghenion mewn ysgol prif ffrwd; a
- dd. monitro a gwerthuso data ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc ag AAA er mwyn llywio datblygiad polisïau a darpariaeth.

## 5. Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r awdurdod yn gyfrifol am:

- sicrhau bod disgyblion, rhieni ac ysgolion yn cael mynediad i staff arbenigol a chymwysedig ym maes nam ar y clyw ac ar y golwg, nam amlsynhwyraidd, awtistiaeth, nam corfforol a niwrolegol, anawsterau iaith a lleferydd ac anawsterau dysgu penodol;
- sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau;
- coladu a gwerthuso data perfformiad ar gyfer pob disgybl ag AAA;
- cadw i fyny â chanllawiau ar gyllido a goruchwyllo dosbarthu cyllid yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol;
- monitro ac adolygu strategaeth, darpariaeth a gwasanaethau AAA; a
- herio pob darparwr i wella ei berfformiad a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc ag AAA yn gallu cyrraedd ei botensial.

Disgwylir i bob ysgol a lleoliad:

- gynnal ethos cynhwysol ar gyfer pob disgybl ag anghenion addysgol arbennig;
- adnabod unigolyn priodol ar y corff llywodraethu i fod yn gyfrifol, ynghyd â'r Pennaeth, am sicrhau bod y lleoliad neu'r ysgol yn cynnal darpariaeth i ddisgyblion ag AAA yn unol â'r Cod Ymarfer AAA;
- datblygu, gweithredu, llunio adroddiadau ac adolygu'n flynyddol bolisi AAA yr ysgol;
- sicrhau bod y cyfrifoldeb ar gyfer bodloni anghenion disgyblion ag AAA yn cael ei rannu gan bob aelod o staff;
- sicrhau bod adnoddau dirprwyedig ar gyfer AAA yn cael eu dyrannu'n deg ac yn effeithlon, a'u bod yn rhoi sylw i'r anghenion a nodwyd;
- sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer adnabod yn gynnar, asesu, darparu a monitro anghenion unigol yn unol â'r Ymateb Graddedig;



- sicrhau bod yr anghenion a'r amcanion a gofnodwyd yn natganiad y plentyn neu gytundeb adnoddol ar y cyd<sup>6</sup> wedi'u bodloni;
- darparu cwricwlwm wedi'i wahaniaethu'n briodol ar draws pob maes dysgu sy'n cyfateb ag anghenion y plentyn;
- gweithio mewn partneriaeth â phlant, eu rhieni, gwarcheidwaid a/neu ofalwyr gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael iddynt am anghenion ac anawsterau eu plentyn, a lle y bo'n briodol, bod cyngor a chymorth annibynnol ar gael iddynt; a
- manteisio ar y cyfleoedd hyfforddi a ddarperir er mwyn datblygu arbenigedd AAA trwy'r ysgol gyfan.



<sup>6</sup> Gweler adran 6.3.3 i gael diffiniad o gytundeb adnoddol ar y cyd

## **6. Strategaethau ar gyfer Adnabod a Bodloni Anghenion Addysgol Arbennig cyn gynted â phosibl**

Mae'r awdurdod yn rhoi pwys mawr ar adnabod AAA yn gynnar er mwyn sicrhau bod addysgu a chymorth effeithiol ar gael i bob plentyn a pherson ifanc cyn gynted â phosibl.

Mae'r awdurdod yn darparu amrywiaeth o wasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc ag AAA, eu teuluoedd a'u hysgolion.

Mae'r gwasanaethau hyn yn canolbwyntio ar alluogi ysgolion i adnabod a bodloni anghenion arbennig disgyblion unigol mor gynnar ac mor effeithiol â phosibl.

Yn ogystal, mae'r cysylltiad agos rhwng gwasanaethau arbenigol a swyddogion gwella ysgolion yr awdurdod yn ceisio sicrhau bod blaenoriaethau ar gyfer gwella ysgol gyfan yn cyfateb â'r rhai ar gyfer cynhwysiant ac AAA.

Mae'r awdurdod yn darparu'r gwasanaethau canolog canlynol i blant, teuluoedd ac ysgolion.

Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau cymorth wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

- Gwasanaeth Seicoleg Addysgol;
- Athrawon ymgynghorol;
- Staff Cymorth Dysgu canolog - LABSSAs a SALTSSAs;
- Cymorth ymddygiad/gwasanaeth UCD;
- Staff Cymorth Ymddygiad canolog SEBSAs
- Gwasanaeth Synhwyrdd;
- Cymorth cynhwysiant (Swyddogion Lles Addysg); a
- Tîm Gweinyddol AAA.

## 6.1 Adnabod yn Gynnar (Cyn-ysgol)

Pan deimlir ei bod yn debygol y bydd gan blentyn neu y gall fod gan blentyn anghenion addysgol arbennig, cânt eu dwyn at sylw'r awdurdod gan y Tîm Plant Anabl, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, neu drwy gael eu cyfeirio'n uniongyrchol gan yr Adran Awdioleg ac Iechyd.

Mae'r awdurdod yn cyllido'n rhannol y cymorth a roddir mewn lleoliadau cyn-ysgol mewn cydweithrediad â Mudiad Meithrin.

O ganlyniad mae Prif Seicolegydd Addysg yr awdurdod yn cadeirio cyfarfodydd amlasiantaeth ddwywaith y tymor i drafod plant y mae eu hanghenion yn gofyn am gymorth ychwanegol mewn lleoliadau cyn-ysgol.

Pryd bynnag y teimlir bod angen gwneud hynny, cynigir cymorth ychwanegol i'r 'lleoliad' er mwyn i staff parhaol yn y lleoliad ei hun allu gweithredu strategaethau ymyrryd.

O ganlyniad bydd mwy o allu gan y lleoliad i roi sylw i anghenion ychwanegol disgyblion unigol.

Mae ceisiadau am gymorth ychwanegol, gan wasanaethau canolog, pan fydd plant yn trosglwyddo i ysgol prif ffrwd yn cael eu gwneud drwy Ffurflen Gais am Gymorth Cynhwysiant (ISRF) Cyn-ysgol yr awdurdod.

Mae copi o'r Ffurflen Gais am Gymorth Cynhwysiant (ISRF) Cyn-ysgol i'w weld yn Atodiad 4.

Yn dilyn gweithredu priodol a/neu asesiadau gan asiantaethau perthnasol mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ag aelodau'r tîm.

Fel arfer bydd anghenion ychwanegol plant sy'n trosglwyddo i ysgol prif ffrwd yn cael eu bodloni drwy Ymateb Graddedig.

Bydd lleiafrif o ddisgyblion, y mae eu hanghenion a'u hanawsterau unigol yn arbennig o gymhleth, ac a fydd angen cymorth neu offer arbenigol, yn cael eu trafod gan banel AAA yr awdurdod.

## 6.2 Adnabod yn Gynnar (Ysgolion a Lleoliadau)

Mae timau canolog yr awdurdod (Gwella Ysgolion a Chynhwysiant) yn cydweithio'n agos mewn partneriaeth â rhieni, athrawon a chynorthwyr addysgu i adnabod a bodloni anghenion plant a phobl mewn yn ysgolion a lleoliadau'r awdurdod.

Mae'r awdurdod yn:

- darparu Gwasanaeth Seicoleg Addysg ac Athrawon Ymgynghorol i ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys ymgynghori, cyngor a hyfforddiant, er mwyn i athrawon allu asesu'n gywir a rhoi sylw i anghenion ysgol gyfan yn ogystal ag anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion;
- sicrhau bod cofrestr AAA mewn ysgolion a lleoliadau yn darparu cofnod cynhwysfawr o bob disgybl ag AAA a'r ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud ar eu cyfer; a
- defnyddio data ar lefel disgybl, gan gynnwys cofnodion presenoldeb a phroffion safonedig ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol, i helpu i adnabod anghenion, targedu ymyrraeth yn briodol a gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth.

Mae'r awdurdod yn disgwyl i bob ysgol a lleoliad:

- wneud defnydd llawn o'r holl adnoddau sydd ar gael yn yr ystafell ddosbarth a'r ysgol, a gwahaniaethu cyfleoedd dysgu er mwyn bodloni anghenion dysgu unigol;
- monitro, adolygu a gwerthuso cynnydd pob disgybl;
- adnabod mor gynnar â phosibl unrhyw ddisgyblion a allai fod angen darpariaeth addysgol 'sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol fel arall i'r' hyn a ddarperir fel rheol.

## 6.3 Ymateb Graddedig

Mae'r awdurdod yn dilyn yn gaeth yr egwyddorion a'r arferion a arddelir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru.

Mae'n dibynnu ar weithredu ei weithdrefnau Ymateb Graddedig mewn ffordd gyson ac effeithiol i sicrhau llwyddiant y strategaeth hon.

Mae ymagwedd yr awdurdod at yr Ymateb Graddedig yn cydnabod bod:

- plant yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol a bod mathau a lefelau gwahanol o anghenion arbennig ganddynt;

- athrawon i gyd yn athrawon plant ag anghenion arbennig;
- gall fod angen cymorth ar ddisgyblion drwy'r Ymateb Graddedig am gyfnod byr neu am sawl blwyddyn;
- gall yr amrywiaeth a'r math o gymorth gynyddu neu leihau yn dibynnu ar anghenion unigol disgyblion; ac
- os yw cynnydd plentyn yn parhau i fod yn destun pryder, mae'n rhaid cynnig cymorth ac arbenigedd ychwanegol fel rhan o'r cylch parhaus o gynllunio, gweithredu ac adolygu.

Os oes tystiolaeth glir bod pryder am gynnydd disgybl, bydd yr awdurdod yn gweithio gydag ysgolion i weithredu'r gweithdrefnau Ymateb Graddedig yn ôl y pedair lefel ganlynol:

- Gweithredu gan yr Ysgol (neu'r Blynyddoedd Cynnar) (SA)
- Gweithredu gan yr Ysgol (neu'r Blynyddoedd Cynnar) a Mwy (SAP)
- Cytundeb Adnoddol ar gyfer Gweithredu gan yr Ysgol (neu'r Blynyddoedd Cynnar) a Mwy (SAPRA)
- Datganiad (S)

### 6.3.1 Gweithredu gan yr Ysgol

Mae Gweithredu gan yr Ysgol wedi'i ddiffinio fel darpariaeth sy'n *'ychwanegol at, neu'n wahanol fel arall i'r'* ddarpariaeth prif ffwrdd wedi'i gwahaniaethu a ddisgwylir.

Mae ar gael mor gynnar â phosibl i unrhyw ddisgybl sy'n ei chael hi'n fwy anodd i ddysgu na'r mwyafrif o'i gyfoedion.

Mae'n rhaid trafod anghenion y disgyblion hyn, a'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i fodloni'r anghenion hynny, â rhieni a'u cofnodi yn yr ysgol, fel rhan o'r Gofrestr AAA ac ar Gynllun Addysg Unigol (CAU) y disgybl.

Mae athrawon dosbarth, drwy ymgynghori â'r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig, yn adolygu cynnydd y disgybl yn rheolaidd er mwyn penderfynu a yw'r ddarpariaeth yn effeithiol neu beidio, ac i benderfynu p'un ai i barhau neu roi'r gorau i'r cymorth ychwanegol, neu symud i fyny i'r lefel Ymateb Graddedig nesaf.

### **Yr ysgol sy'n gyfrifol am adnabod a bodloni anghenion disgyblion ac am drefnu a chyflenwi darpariaeth ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol.**

Mae cyllid ar gyfer y ddarpariaeth hon wedi'i gynnwys yng nghyllidebau ysgolion. Mae mwy o fanylion am strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyllido AAA i'w gweld yn Atodiad 2.

Rôl yr awdurdod yw cynghori a helpu ysgolion i benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu'n effeithiol ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol.

Mae'r awdurdod hefyd yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian y ddarpariaeth, drwy adolygu data ar gyraeddiadau disgyblion fel rhan o'i waith gwella ysgolion, a hefyd drwy waith dadansoddi data y tîm AAA canolog.

### **6.3.2. Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy**

Os na fydd disgybl yn gwneud llawer o gynnydd neu ddim cynnydd mewn ymateb i ddarpariaeth wedi'i gwahaniaethu a'i thargedu'n briodol ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol dros o leiaf dau dymor, dylai'r ysgol ystyried gwneud darpariaeth ychwanegol ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Mae athrawon dosbarth a'r Cydlynnydd AAA yn ailasesu anghenion y disgybl yn ôl y meini prawf priodol.

Mae manylion llawn am y meini prawf AAA i'w gweld yn Atodiad 3.

Dylai'r Cydlynnydd AAA gwblhau Ffurflen Gais am Gymorth Cynhwysiant (ISRF) er mwyn gwneud cais am gymorth ychwanegol a/neu gyngor gan yr awdurdod, er enghraifft y Tîm Seicoleg Addysgol, Athrawon Ymgynghorol, Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad neu'r Gwasanaeth Synhwyraidd.

Mae copi o'r ffurflen i'w weld yn Atodiad 4.

Ar ôl cael cyngor ychwanegol a/neu wybodaeth asesu, mae'r ysgol yn gyfrifol am gofnodi anghenion disgyblion ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, cynnwys yr wybodaeth newydd yng Nghynllun Addysg Unigol (CAU) y disgybl a pharhau i weithredu'r CAU.

Mae'r ysgol yn parhau i fonitro, gwerthuso ac adolygu cynnydd y disgybl er mwyn penderfynu a yw'r rhaglen yn effeithiol.

Yn yr un modd â Gweithredu gan yr Ysgol, mae cyllid ar gyfer Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn cael ei ddirprwyo i ysgolion.

Mae tîm AAA canolog yr awdurdod yn parhau i fonitro a gwerthuso effaith cyllid ar gyfer cymorth ychwanegol ar gynnydd disgyblion.

### **6.3.3. Cytundeb Adnoddol ar gyfer Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (SAPRA)**

Os nad yw disgybl yn gwneud llawer o gynnydd neu ddim cynnydd mewn ymateb i ddarpariaeth wedi'i gwahaniaethu a'i thargedu'n briodol ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy dros o leiaf dau dymor, dylai'r **ysgol** wneud cais am gymorth ychwanegol gan yr awdurdod drwy gyfeirio'r achos at y Panel AAA.

Bydd y panel yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynir gan yr ysgol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth asesu gan y gwasanaethau cymorth a/neu asiantaethau allanol ac, os yw'n briodol, bydd yn dyrannu adnoddau ychwanegol o'r gyllideb ganolog.

Felly mae cyllid ar gyfer darpariaeth Ymateb Graddedig y disgybl yn gyfrifoldeb yr ysgol a'r awdurdod ar y cyd.

Bydd anghenion y disgybl, y ddarpariaeth i fodloni'r anghenion hynny, rolau a chyfrifoldebau'r ysgol a'r awdurdod a'r cyllid a ddyrennir gan bob parti wedi'u hamlinellu mewn Cytundeb Adnoddol ar y Cyd.

**At ddibenion adolygu, monitro a gwerthuso, mae'r awdurdod yn ystyried Cytundeb Adnoddol ar y Cyd yn gyfwerth â Datganiad o AAA.**

#### **6.3.4. Asesiad Statudol**

Mae'r awdurdod yn derbyn yr egwyddor sylfaenol sydd wedi'i chorffori yng Nghod Ymarfer AAA sef mai dim ond lleiafrif bach iawn o blant fydd ag AAA sydd mor ddifrifol neu gymhleth fel bod angen asesiad statudol a datganiad o AAA arnynt.

Fel rheol, bydd yr awdurdod yn cynnal Asesiad Statudol:

- os oes tystiolaeth i ddangos bod yr ysgol wedi gweithredu'r Ymateb Graddedig a bod y disgybl yn parhau i dangyflawni er iddo neu iddi gael y lefelau uchaf o gymorth sydd ar gael heb Ddatganiad; neu
- os oes digon o dystiolaeth ddarbwyllol bod angen Asesiad Statudol ar unwaith, er enghraifft os bu newid sydyn a thrawmatig yn amgylchiadau'r disgybl; neu
- os yw'r awdurdod yn ymwybodol y gall fod angen lleoliad ar ddisgybl mewn ysgol arbennig.

#### **6.3.5. Datganiad**

Mae'r awdurdod yn ceisio bodloni anghenion cynifer o ddisgyblion ag y bo modd heb ddefnyddio Datganiad, h.y. drwy ddarpariaeth ar lefel SAPRA.

Fodd bynnag, i nifer fach o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd angen lleoliad mewn ysgol arbennig y tu allan i'r sir, mae'n bosibl i'r awdurdod gynnal datganiad yn y ffordd arferol.

Mae cyllid ychwanegol ar gyfer y disgyblion hyn yn cael ei ddarparu o gyllideb AAA ganolog yr awdurdod.

### **6.4 Cyfarfodydd Cynllunio Ysgolion**

Mae'r cyfarfodydd cynllunio AAA yn elfen hanfodol o waith yr awdurdod gydag ysgolion i sicrhau bod yr Ymateb Graddedig, darpariaeth ac adnoddau yn cael eu gweithredu'n effeithiol, a monitro cynnydd disgyblion.

Cynhelir y cyfarfodydd hyn (un ar gyfer pob ardal) bob blwyddyn yng Nghanolfan Rheidol ac mae holl staff perthnasol yr awdurdod, Penaethiaid a Chydlynwyr AAA yn bresennol.



Rhoddir gwerthusiad cyffredinol o'r flwyddyn ddiwethaf a manylion am flaengynllunio/newidiadau.

Yn ogystal ag ymweliadau ag ysgolion unigol, mae staff o'r awdurdod yn achub ar y cyfle i adolygu, monitro a thrafod effeithiolrwydd darpariaeth AAA ysgolion unigol a rhoi cyngor a chymorth a fydd yn cynnig modd i ysgolion gynnal safonau uchel o ddarpariaeth a darparu ar gyfer anghenion yn y dyfodol.

Disgwylir i bob ysgol gwblhau dogfen gynllunio sy'n amlinellu sut y defnyddiwyd y gyllideb AAA, anghenion disgwylidig, darpariaeth ymyrryd a manylion am ddisgyblion neu garfannau penodol o ddisgyblion y gall eu cynnydd fod yn achos o bryder.

Mae copi o'r ddogfen yn cael ei gadw'n ganolog ac mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i helpu i wneud penderfyniadau am gynllunio yn y dyfodol ar gyfer polisïau, darpariaeth, hyfforddiant, cyllid a chanlyniadau disgwylidig.

Yn ystod y sesiynau hyn bydd cyfle gan staff ysgol i rannu eu pryderon presennol â staff perthnasol o'r awdurdod a chyfnewid arbenigedd ac arfer da gyda chydweithwyr.

## 6.5 Paneli AAA

Cyflwynir ceisiadau am gymorth i'r awdurdod drwy ddefnyddio Ffurflen Cais am Gymorth Cynhwysiant (ISRF).

Mae'r holl gyfeiriadau yn cael eu rhannu â phob aelod o'r tîm AAA/Cynhwysiant cyn cael eu rhoi i'r swyddog sydd â'r arbenigedd perthnasol.

Bydd y swyddog dynodedig yn trefnu apwyntiad gyda'r ysgol i drafod/arsylwi ar y plentyn gyda'r nod o ddarparu cyngor a chymorth priodol.

Mae pob cyfeiriad yn cael ei gofnodi a'i fonitro i sicrhau bod ymateb yn cael ei roi i'r ysgol o fewn 5 diwrnod gwaith.

Bydd y tîm AAA yn parhau i gwrdd er mwyn trafod eu llwyth achosion a rhoi adborth i sicrhau bod ymateb cyson a chynhwysfawr yn cael ei roi.

Os oes achos mawr o bryder, caiff achosion eu cyfeirio at y Panel Adnoddau AAA i'w trafod.

Ar yr adeg hon caiff rhieni eu hysbysu, yn ysgrifenedig, am y penderfyniad hwn ac unrhyw ganlyniadau.


## Panel Adnoddau AAA

Mae'r Panel Adnoddau yn cwrdd unwaith bob hanner tymor ac mae wedi'i ffurfio o gynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd Lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol, (TPA) SNAP Cymru, Penaethiaid a'r Awdurdod Lleol.

Yn dilyn cais gan yr ysgol bydd y Panel AAA yn ystyried y dystiolaeth a gafwyd bod strategaethau priodol wedi cael eu rhoi yn eu lle dros gyfnod rhesymol o amser heb unrhyw lwyddiant.

Ar gyfer pob cais a gyflwynir, bydd y Panel yn ystyried gweithredu gan yr Awdurdod Lleol a gwasanaethau cymorth ychwanegol wrth asesu'r plentyn ac adolygu'r ddarpariaeth.

Am y rheswm hwn, nid yw'r Panel Adnoddau yn ystyried Ffurflenni Cais am Gymorth Cynhwysiant (ISRFs) sydd newydd gael eu cyflwyno i'r tîm AAA.



## **7. Strategaethau ar gyfer darparu addysgu a chymorth effeithiol i bob disgybl ag anghenion addysgol arbennig yn unol â gofynion statudol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chod Ymarfer AAA Cymru 2002**

### **7.1 Strategaethau Generig**

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu addysgu a chymorth effeithiol i bob disgybl er mwyn sicrhau bod disgyblion ag AAA yn cyrraedd y safonau gorau posibl a hefyd i alluogi ysgolion i fodloni anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu ac ymddygiadol 'lefel isel' mor gynnar â phosibl.

Mae nifer o strategaethau gwella ysgolion generig yr awdurdod yn canolbwyntio ar adnabod anawsterau ar lefel ysgol yn gynnar, ac felly helpu i leihau nifer y disgyblion sy'n tangyflawni yn eu dysgu a/neu sy'n datblygu anawsterau ymddygiadol.

Mae'r strategaethau cenedlaethol ac awdurdod cyfan hyn yn cynnwys:

- Llythrennedd;
- Rhifedd;
- Y Cyfnod Sylfaen;
- cyngor, cymorth a hyfforddiant i athrawon ar strategaethau sy'n hybu cynhwysiant, megis gwahaniaethu effeithiol a rheoli ymddygiad; a
- chymorth a her ar gyfer ysgolion sy'n tanberfformio, gan gynnwys y rhai lle mae presenoldeb a/neu ymddygiad yn broblem.

### **7.2 Cymorth ac Ymyrraeth wedi'u Targedu**

Mae ystod eang o gymorth ac ymyrraeth wedi'u targedu ar gael drwy system Ymateb Graddedig yr awdurdod i helpu disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion sy'n cael anawsterau dysgu a/neu ymddygiadol ac sy'n bodloni'r meini prawf o fewn Cod Ymarfer AAA.

Disgrifir y mathau o gymorth sydd ar gael isod, a chânt eu grwpio yn ôl y prif fathau o AAA.<sup>7</sup>

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i ymateb yn hyblyg i ddifrifoldeb a chymhlethdod amrywiol anghenion disgyblion, a bodloni'r anghenion hynny am ba gyfnod bynnag y bo angen.

Dylid nodi ei bod hi'n dra phosibl y bydd anghenion gan ddisgyblion unigol sy'n croesi dau faes neu ragor, ac felly mae'r cymorth priodol yn cael ei deilwra yn unol â hynny.

Y meysydd yw:


### **Gwybyddiaeth a Dysgu**

### **Ymddygiad, Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol**

### **Cyfathrebu a Rhyngweithio**

### **Synhwyraidd a/neu Gorfforol**

Disgrifir y meysydd hyn yn fwy manwl yn Atodiad 3.



<sup>7</sup> Ar gyfer diffiniadau o'r mathau o AAA (ac eithrio GLD), gweler: Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif 024-07: Canllawiau i gynorthwyo â chofnodi Anghenion Addysgol Arbennig Disgyblion ar Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion (Awst 2007).

## **8. Strategaethau ar gyfer addysgu disgyblion ag AAA o fewn ysgolion prif ffrwd yr awdurdod lle'n bosibl**

Mae'r awdurdod yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth i ddisgyblion ag AAA mewn lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen ac ysgolion prif ffrwd a thrwy bartneriaethau ag asiantaethau eraill.

### **8.1 Lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen: (lleoliadau a gynhelir a nas gynhelir)**

Er nad yw ein cyfrifoldeb statudol yn dechrau hyd nes bod plentyn yn 3 oed, mae Ceredigion yn cynnig cyllid sylweddol drwy'r Cynllun Cyfeirio i gefnogi darpariaeth anghenion ychwanegol o fewn lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen gan ei fod yn cydnabod manteision ymyrryd yn gynnar.

Mae'r Seicolegwyr Addysg, Cymorth Ymddygiad, Gwasanaeth Cynghori'r Cyfnod Sylfaen a'r Gwasanaeth Synhwyrdd yn helpu disgyblion yn y lleoliadau hyn.

Eu rôl o fewn y lleoliadau hyn yw cynnig cyngor ar ymyraethau priodol a rhoi gwybodaeth i'r awdurdod er mwyn iddo allu blaengynllunio darpariaeth ac adnoddau a sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n ddidrafferth i leoliad cynradd prif ffrwd neu ddarpariaeth arall.

Yn y ddau leoliad mae staff yr awdurdod yn rhoi cyngor ac arweiniad i Gydlynwyr AAA, rhieni a staff cymorth.

Gwasanaeth Cynghori'r Cyfnod Sylfaen:

Fel rhan o'u sesiynau monitro, modelu a chynghori, bydd staff yr awdurdod yn adnabod plant sydd angen cymorth pellach.

Os nad yw'r plant hyn wedi cael eu hadnabod eisoes gan y lleoliad, bydd staff yr awdurdod yn annog arweinwyr lleoliadau i ymgynghori ag Athrawon Ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen ar gyfer AAA a/neu Gydlynwyr Cynlluniau Cyfeirio.

## 8.2 Darpariaeth mewn Dosbarth Prif Ffrwd

Mae'r awdurdod yn addysgu bron pob plentyn a pherson ifanc ag AAA naill ai o fewn ei ysgolion prif ffrwd lleol neu o fewn dosbarthiadau mwy arbenigol (ag adnoddau) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd penodol.

Nid yw'r awdurdod yn cynnal unrhyw ysgolion arbennig.

Er mwyn i ddisgyblion ag AAA allu ffynnu yn eu hysgol leol ac mewn dosbarth prif ffrwd lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r awdurdod wedi ymrwymo i ddatblygu gallu ysgolion prif ffrwd i adnabod a bodloni anghenion disgyblion.

Er mwyn cyrraedd y nod hwn, mae'r awdurdod yn sicrhau bod:

- timau gwella ysgolion yn cydweithio'n agos ag athrawon ymgynghorol AAA i rannu arbenigedd, cymorth a gwybodaeth drwy gyfarfodydd cynllunio AAA ac ymweliadau cyswllt tymhorol â phob ysgol;
- anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn effeithiol drwy gyfarfodydd cynllunio AAA ysgolion unigol yn ogystal â thrwy ddata wedi'u coladu'n ganolog;
- ysgolion yn gallu cael at gymorth a hyfforddiant arbenigol, o ansawdd uchel er mwyn iddynt gael gwybod am y datblygiadau diweddaraf ym maes AAA a'u cynorthwyo i weithredu rhaglenni priodol ar gyfer disgyblion;
- pob Cydlynnydd AAA, yn enwedig y rhai sydd newydd eu penodi, yn elwa o gael hyfforddiant tymhorol, sesiynau rhwydweithio a monitro, dan arweiniad yr Athrawon Ymgynghorol a Seicolegwyr Addysg;
- staff yn y Cyfnod Sylfaen yn cael cymorth i ddatblygu sgiliau adnabod anghenion plant yn gynnar;
- athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cael cyfle i fynychu hyfforddiant AAA priodol, wedi'i ddarparu fel rhan o raglen datblygiad proffesiynol parhaus yr awdurdod;
- cymorth i ysgolion unigol yn sicrhau ymagwedd gyson ac effeithiol drwy'r awdurdod cyfan; a
- bod ymagwedd gynhwysol at Lythrennedd a Rhifedd sy'n hybu arferion da, codi safonau i bawb ac yn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol rannu eu harbenigedd.

### 8.3 Dosbarthiadau ag adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd

Mae dosbarthiadau ag adnoddau yn cynnal rhaglen hyblyg o gymorth sy'n cynnig modd i ddisgyblion ag anghenion mwy difrifol a chymhleth gael at ddarpariaeth arbenigol a lleol.

Mae'r dosbarthiadau hyn hefyd yn darparu gwasanaeth allgymorth i ysgolion lleol.

Mae'r awdurdod yn darparu dosbarthiadau ag adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd fel a ganlyn:

- Pili Pala ac Enfys yn Ysgol Llwyn yr Eos (Cynradd)
- Canolfan y Don yn Ysgol Aberporth (Cynradd)
- Canolfan y Bont yn Ysgol Bro Pedr (Uwchradd)
- Canolfan Cymorth Dysgu yn Ysgol Penglais (Uwchradd)
- Canolfan y Môr yn Ysgol Uwchradd Aberaeron (Uwchradd)

### 8.4 Darpariaeth annibynnol

Yn ogystal, mae'r awdurdod yn cynnal darpariaeth annibynnol yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 (Canolfan yr Eos , Canolfan Bro Steffan) a Chyfnod Allweddol 4 (Canolfan Aberaeron) i ddisgyblion sydd angen cymorth dros dro er mwyn addasu eu hymddygiad.

Mae'r lleoliadau hyn wedi'u cofrestru fel Unedau Cyfeirio Disgyblion portffolio (UCD) o dan arweiniad un bwrdd rheoli.

Mae pob disgybl sy'n dechrau yn y ddarpariaeth hon yn cael ei ystyried yn ddisgyblion sydd angen cymorth AAA ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy o leiaf, ac mae lefelau uwch o angen gan rai ohonynt (SAPRA neu Ddatganiad).

Mae gan bob disgybl UCD Gynllun Addysg Unigol a thargedau penodol ar gyfer symud yn ôl i leoliad addysgol priodol, addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth yn ôl-16.

## 9. Strategaethau ar gyfer Gweithio mewn Partneriaeth â Disgyblion, Rhieni, Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar, Ysgolion ac Asiantaethau Allanol

### Disgyblion a Rhieni/Gwarcheidwaid/Gofalwyr

O dan Adran 332A o Ddeddf Addysg (1996) mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol drefnu i riant, gwarcheidwad neu ofalwr unrhyw blentyn ag AAA sy'n byw yn eu hardal i gael cyngor a gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag angen eu plentyn. Pan fydd plentyn yn cael ei roi ar gofrestr AAA yr ysgol, mae'n rhaid i Gydlynnydd AAA yr ysgol geisio caniatâd y rhieni a rhoi gwybodaeth iddynt am yr holl wasanaethau partneriaeth â rhieni sydd ar gael iddynt.

Mae Seicolegwyr Addysg, Athrawon Ymgynghorol a Swyddogion Cynhwysiant bob amser wrth law i gefnogi a chynghori ysgolion a rhieni.

Mae sesiwn Galw Heibio i Rieni, seiliedig ar yr awdurdod, yn cael ei chynnal yng Nghanolfan Rheidol bob mis i bob riant, gofalwr a gwarcheidwad disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a allai fod yn cael trafferthion gyda'i blentyn neu ddarpariaeth ei blentyn.

Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyfle i rieni drafod eu pryderon â'r staff priodol yn yr awdurdod a chydweithio ag ysgolion er mwyn cael canlyniad cadarnhaol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

Cydnabyddir na fydd rhieni, gwarcheidwaid neu ofalwyr yn cytuno â'r awdurdod weithiau ar y lefel a/neu'r math o gymorth neu'r lleoliad y gall fod ei angen ar eu plentyn, ac efallai y bydd angen cymorth arnynt i ddeall y broses AAA.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, yn ogystal â staff canolog, bydd yr awdurdod yn parhau i gydweithio â SNAP Cymru a'r mudiad Tros Gynnal.

Bydd y partneriaethau hyn yn sicrhau bod pob riant, gwarcheidwad, gofalwr a phlentyn ag anghenion addysgol arbennig yn cael cyfle i gael mynediad am ddim i gyngor, cymorth a gwybodaeth gywir, ddiudedd a chyfrinachol am anghenion ychwanegol eu plant a phobl ifanc o enedigaeth i 19 oed.

Mae'r awdurdod hefyd yn cydnabod anghenion a hawliau eu disgyblion i gael unigolyn annibynnol fydd yn gweithio mewn ffordd agored a hygyrch i hyrwyddo a gwireddu eu hawliau.

*'Mae gan blant sy'n gallu ffurfio barn yr hawl i gael gwybodaeth, mynegi barn a gweld bod y farn honno yn cael ei hystyried mewn unrhyw fater sy'n effeithio arnynt. Dylai barn y plentyn gael yr ystyriaeth briodol yn ôl oedran, aeddfedrwydd a gallu'r plentyn.'*  
(Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)



Dylai disgyblion ag AAA gymryd rhan weithgar, ar lefel briodol, yn y trafodaethau am eu CAU gan gynnwys gosod targedau ac adolygu eu cynnydd wrth gyrraedd y targedau hynny.

Mae fformatau CAU ystyriol o'r plentyn ar gyfer pob Cyfnod Allweddol gyda datganiadau cadarnhaol i'w cwblhau gan ddisgyblion ar gael i bobl ysgol gan sicrhau bod disgyblion a rhieni yn hollol ymwybodol ac yn deall eu targedau a sut y gellir eu cyrraedd. Mae taflen adolygu 'Sut wnes i' ar gael hefyd.

Mae enghraifft o'r CAUau hyn i'w gweld yn Atodiad 4.

Mae pob ysgol yn cael ei hannog, pan fo'n briodol, i gynnwys disgyblion yn y cyfarfodydd Adolygiad Blynyddol unigol drwy geisio a chofnodi eu barn.

Mae'n bwysig peidio â gwneud rhagdybiaethau ynghylch lefelau dealltwriaeth yn enwedig ymysg plant ifanc iawn neu blant sydd ag anawsterau synhwyrdd neu gyfathrebu. Efallai y bydd angen i rai pobl ifanc gael neu dymunant gael cymorth personol neu efallai yr hoffent fynegi eu barn drwy riant, ffrind neu gyfoed, gweithiwr cymdeithasol, cwnselwr, eiriolwr neu Gyfathrebwr.

Bydd yr awdurdod yn parhau i gydweithio â'r mudiad Tros Gynnal ac asiantaethau eraill e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS), er mwyn ystyried barn y plentyn neu'r person ifanc.

Mae'r manylion cyswllt ar gyfer y Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

## 9.2 Ysgolion a lleoliadau

Bydd yr awdurdod yn parhau i gefnogi ysgolion a lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen wrth iddynt gyflenwi'r strategaeth hon drwy:

- ddarparu cyfres o feini prawf cyffredin ar gyfer adnabod ac asesu anghenion;
- gweithredu ei strategaeth gyllido;
- sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau priodol ar gael;
- darparu cyfleoedd hyfforddi effeithiol ar gyfer staff a Llywodraethwyr;
- sefydlu a chefnogi pontio effeithiol rhwng Cyfnodau Allweddol; ac
- annog rhannu arferion da.

### 9.3 Asiantaethau allanol

Mae'r awdurdod yn cydnabod cyfraniad asiantaethau allanol wrth wella canlyniadau i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig drwy wella addysgu a chymorth i bob disgybl, yn unol â gofynion statudol Cod Ymarfer AAA Cymru 2002 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o asiantaethau gan gynnwys:

- Y Gwasanaeth Iechyd
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS);
- Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd;
- Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Tîm o Amgylch y Teulu;
- Tîm Plant Anabl;
- Tîm Teulu;
- PRISM / SUDS (Gwasanaeth Yfed a Chyffuriau Arbenigol i Blant Dan 18 oed); a
- Chlybiau Pyramid.

Mae manylion cyswllt pob asiantaeth i'w gweld ar wefan Ceredigion  
fis.[ceredigion.gov.uk](http://ceredigion.gov.uk)

## **10. Strategaethau ar gyfer Gweithio mewn Partneriaeth â Darparwyr eraill i drefnu Addysg a Gwasanaethau Arbenigol, o Safon Uchel i'r nifer fach iawn o ddisgyblion na ellir bodloni eu hanghenion mewn ysgol prif ffrwd**

I'r nifer fach iawn o ddisgyblion na ellir bodloni eu hanghenion drwy addysg prif ffrwd, mae'r awdurdod yn ceisio addysg a chymorth arbenigol, o safon uchel drwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a darparwyr eraill.

Bob blwyddyn, mae'r awdurdod yn rhoi nifer fach iawn o ddisgyblion ag anghenion eithriadol o gymhleth mewn darpariaeth y tu allan i Geredigion.

Fel rheol bydd darpariaeth y tu allan i'r sir mewn ysgol arbennig ddydd neu breswyl a gynhelir gan awdurdod arall, neu yn y sector annibynnol.

Mae penderfyniadau i roi disgyblion mewn lleoliadau y tu allan i'r sir yn cael eu gwneud gan Banel Anghenion Cymhleth amlasiantaeth, gydag aelodaeth o Y Gwasanaeth Dysgu, Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Mae'r holl lleoliadau y tu allan i'r sir yn destun monitro trylwyr.

Bydd ysgolion yn cael ymweliad cyn lleoli plentyn i bennu eu haddasrwydd.

Pan gaiff disgyblion eu lleoli, bydd tîm AAA canolog yr awdurdod yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd, drwy fynychu cyfarfodydd adolygu blynyddol, drwy drafod gyda rhieni a thrwy ddadansoddi data cynnydd.

### **10.1 Panel Anghenion Cymhleth**

Mae'r grŵp strategol amlasiantaeth hwn yn cwrdd bob mis. Ei rôl yw trafod a mynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc drwy roi trefniadau ar y cyd yn eu lle i asesu, cynllunio a darparu gwasanaeth i blant ag anghenion cymhleth y mae pob asiantaeth yn ymwybodol ohonynt.

Mae'r panel yn gweithio i brotocol clir sy'n darparu fframwaith lleol manwl i hwyluso dulliau gweithio ar y cyd a gwneud penderfyniadau effeithiol.

Os yw'n bosibl, caiff yr anghenion eu bodloni'n lleol, ond yn achos ambell i ddisgybl bydd rhaid sicrhau lleoliadau y tu allan i'r sir.

Mae'r panel yn ystyried pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion cymhleth gan gynnwys:

- plant a phobl ifanc mewn angen sy'n parhau i fyw gartref gyda'u teuluoedd eu hunain lle nad oes modd bodloni cymhlethdod a dwyster eu hanghenion gan un asiantaeth;
- plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod, lle na ellir bodloni cymhlethdod a dwyster eu hanghenion gan un asiantaeth;
- plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu penodol lle na ellir bodloni cymhlethdod a dwyster eu hanghenion gan un asiantaeth a lle mae'n fwy tebygol y bydd angen ymyrraeth i ddelio â'u hanghenion, a all fod ar gael y tu allan i adnoddau presennol y sir yn unig;
- plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd (corfforol, meddyliol neu emosiynol) lle na ellir bodloni cymhlethdod a dwyster eu hanghenion gan wasanaethau iechyd cyffredinol neu arbenigol presennol, gofal cymdeithasol parhaus a chyson neu os yw'n fwyfwy tebyg y bydd angen ymyrraeth ar eu hanghenion, a all fod ar gael y tu allan i adnoddau presennol y sir yn unig;
- plant a phobl ifanc yn y categorïau uchod lle y nodir yn gynnar yn y broses bod angen ymyrraeth i atal yr angen am ymyrraeth ddwysach yn nes ymlaen;
- mae'n rhaid bod anghenion addysgol disgyblion o'r fath wedi cael eu trafod yn gyntaf gan y Panel Adnoddau AAA ac unwaith eto, caiff rhieni eu hysbysu a cheisir eu barn a, lle y bo'n briodol, barn y plentyn;
- o bryd i'w gilydd, bydd disgyblion sydd angen ymyrraeth arbenigol gan un neu ragor o asiantaethau yn cael eu cyfeirio at Grŵp Cynllunio Rhyng-asiantaeth y Panel Anghenion Cymhleth er gwybodaeth yn unig.


## 11. Strategaethau ar gyfer monitro a gwerthuso data ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc ag AAA i fod yn sail ar gyfer datblygu polisiau a darpariaeth

Mae'r awdurdod yn ystyried casglu a chofnodi gwybodaeth a data manwl i blant ag anghenion addysgol arbennig yn ffactor hanfodol wrth ddatblygu polisiau a chynllunio ar gyfer darpariaeth effeithiol.

Mae'r tîm gweinyddol AAA canolog yn cadw cronfa ddata AAA electronig sy'n cynnwys gwybodaeth o gofrestri AAA ysgolion, cofnodion data AAA CYBLD blynyddol, data cynnydd unigol a lefel ysgol, cofnodion o gyfarfodydd cynllunio ysgolion a gwybodaeth asesu disgyblion.

Drwy ddadansoddiad rheolaidd o'r cofnod data cynhwysfawr hwn, mae'r awdurdod yn gallu:

- monitro a gwerthuso effaith ymyraethau ar gyfer disgyblion unigol, grwpiau o ddisgyblion ac ar lefel ysgol;
- monitro a gwerthuso effaith cyllid ychwanegol, dirprwyedig a chanolog, ar ganlyniadau i ddisgyblion ag AAA;
- targedu cyllid ychwanegol yn briodol, ac adnabod anghenion cyllid yn y dyfodol; a
- monitro tueddiadau ac adnabod y meysydd o angen sy'n dod i'r amlwg.



## **12. Monitro a Gwerthuso Effaith y Strategaeth AAA**

Mae gan yr Awdurdod Addysg rôl allweddol i'w chwarae wrth fonitro ysgolion. Mae blaenoriaethau strategol, nodau a chymau gweithredu allweddol y Fframwaith Rhanbarthol, Her, Cefnogaeth ac Ymyrraeth a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn adlewyrchu ac yn blaenoriaethu gwella ysgolion a hunanarfarnu.

Mae strategaeth yr ALL ar gyfer monitro ysgolion wedi'i chynnwys o fewn dogfennaeth y Fframwaith, Her, Cefnogaeth ac Ymyrraeth.

Mae gweithredu'r strategaeth, polisiau a gweithdrefnau AAA a amlinellir yn y ddogfen hon yn amodol ar fonitro parhaus gan yr awdurdod fel rhan o'r fframwaith hwn.

Mae effaith y strategaeth ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc ag AAA yn cael ei hadolygu'n flynyddol, fel rhan o'r rhaglen gyffredinol hon o hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

# Atodiad 1

## Timau Cymorth Canolog

### **Rolau a Chyfrifoldebau**

## Y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol (GSA) yn cefnogi plant a phobl ifanc 0 i 19 oed.

Rôl y GSA yw helpu i godi safonau addysgol a hwyluso cynhwysiant addysgol drwy ddefnyddio seicoleg.

Gellir rhannu gwaith seicolegwyr addysg yr awdurdod yn bum prif gategori:

- cefnogi datblygiad ac addysg plant;
- cefnogi gwella ysgolion;
- rôl strategol;
- cyfraniad at adnabod yn gynnar; a
- gwaith asesu statudol.

Cyflawnir hyn drwy:

- weithredu system dyrannu amser i ysgolion, yn seiliedig ar fformiwla, sy'n caniatáu ar gyfer rhannu adnoddau GSA mewn modd teg a thryloyw;
- defnyddio model ymgynghori o fewn ei ysgolion lle mae'r seicolegydd ac aelodau staff yn cydweithio i:
  - ystyried a meddwl am y sefyllfa gyfredol;
  - adnabod meysydd lle mae strategaethau cyfredol i'w gweld yn llwyddo;
  - adnabod meysydd a fyddai'n elwa o ddatblygiad pellach; a
  - llunio strategaethau posibl i hwyluso datblygiad neu newid.

Gellir ymgynghori ag aelodau staff unigol neu grwpiau o aelodau staff a gallai ymwneud â phlant/grwpiau o blant unigol neu faterion systematig mwy cyffredinol, e.e. datblygu llythrennedd/ymddygiad o fewn yr ysgol.



Er mwyn ceisio sicrhau'r newid a fydd yn gwella'r sefyllfa, gall fod yn briodol i'r seicolegydd weithio gyda:

- phlant unigol;
- ysgolion cyfan; a
- rhieni a/neu warcheidwaid/gofalwyr ac asiantaethau allanol.

Mae'r GSA hefyd ar gael i ddarparu cyrsiau hyfforddi i staff ysgol a gwneud gwaith prosiect neu ymchwil seicolegol.



## Athrawon Ymgynghorol

Mae athrawon ymgynghorol yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc 0-19 sydd ag AAA yn yr awdurdod i sicrhau bod y cyfleoedd gorau posibl ganddynt i gyrraedd eu potensial unigol.

Rôl Athrawon Ymgynghorol yw:

- hwyluso cynhwysiant addysgol o fewn lleoliadau prif ffrwd;
- helpu ysgolion i godi safonau addysgol i bob disgybl; a
- darparu hyfforddiant a chymorth i gynyddu gallu ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion ag AAA.

Cyflawnir hyn drwy:

- gydweithio'n agos â Swyddogion Gwella Ysgolion i adnabod a mynd i'r afael â meysydd o angen neu reolaeth addysgol;
- darparu cyngor ac arweiniad ar reoli'r ddarpariaeth AAA;
- cefnogi ysgolion i adnabod angen plentyn neu berson ifanc yn gynnar;
- cynghori, modelu, monitro ac adrodd ar strategaethau ymyrraeth effeithiol;
- arweiniad a darparu adnoddau unigol ac ysgol gyfan priodol;
- cynnig hyfforddiant i ysgolion cyfan, grwpiau neu unigolion mewn meysydd dysgu cyffredinol neu benodol;
- cefnogi rhieni drwy ddarparu cyngor a gwybodaeth berthnasol;
- cydlynu a monitro gwaith staff cymorth canolog (LABSSAs a SALTSAAs);
- chydweithredu ar fentrau a phrosesau sirol/cenedlaethol gyda'r nod o 'gau'r bwlch' a chodi safonau pob disgybl.

## Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad

Mae Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad Ceredigion yn gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned ysgol gyfan a chydweithwyr amlasiantaeth i hyrwyddo'r safonau ymddygiad gorau posibl gan hybu addysgu a dysgu effeithiol.

Y nod yw rhannu gwybodaeth ar bob agwedd ar gymorth ymddygiad er mwyn i bob aelod o staff allu dysgu o arferion da eraill sy'n gweithio i wella ymddygiad plant a phobl ifanc.

Bydd y Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad yn cynnig:

- cymorth ac arweiniad i ddisgyblion unigol;
- cymorth ac arweiniad i athrawon unigol;
- hyfforddiant i staff ysgol gyfan;
- hyfforddiant i lywodraethwyr ac eraill sy'n gweithio gyda phlant; a
- chynnig cyswllt rhwng rhieni, ysgolion a chydweithwyr amlasiantaeth pan fo'n briodol.

Gwasanaethau a ddarperir:

Mae Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad Ceredigion yn darparu cymorth, cyngor ac arweiniad cychwynnol ar sut i wella ymddygiad disgyblion unigol yng nghymunedau cynnar Ymateb Graddedig drwy:

- gynnig cymorth i bob ysgol gynradd ac uwchradd yn y sir; a
- chydweithio'n agos â Phenaethiaid, Chydlynwyr Anghenion Arbennig a Phenaethiaid Cynhwysiant i sicrhau bod y cymorth a gynigir gan y gwasanaeth yn cyfateb ag anghenion yr ysgol a'r person ifanc.

## Y Tîm Cymorth Cynhwysiant Addysgol

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysgol (GCA) yn cefnogi plant a phobl ifanc oedran ysgol statudol (5-16 oed) i sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd addysgol a gynigir mewn ysgolion a lleoliadau addysgol yng Ngheredigion.

Mae rôl y GCA wedi'i chysylltu'n fwy penodol â phresenoldeb plant a phobl ifanc oedran ysgol statudol sy'n ddisgyblion cofrestredig yn ysgolion Ceredigion; mae hyn yn cynnwys disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r lleoliad prif ffrwd mewn Uned Cyfeirio Disgyblion neu fel arall gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

Mae gwaith Swyddogion Cynhwysiant Addysgol (SCA) yn cynnwys:

- hyrwyddo presenoldeb rheolaidd plant yn yr ysgol neu ddarpariaeth addysgol arall;
- asesu anghenion disgyblion â phresenoldeb gwael, a gweithredu i wella hyn a chynnal eu lles;
- cynorthwyo i ddarparu cwricwlwm amgen; ac
- ymgymryd â rôl arbenigol.

Cyflawnir hyn drwy:

- gydweithio'n agos ag ysgolion i sicrhau bod systemau cadarn ganddynt yn eu lle i sicrhau presenoldeb da;
- cefnogi rhieni gyda materion presenoldeb a materion perthnasol eraill;
- monitro patrwm presenoldeb disgyblion unigol ac annog presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol drwy ddefnyddio strategaethau priodol;
- ymgymryd â gwaith achosion dwys a rhoi cyfle i unigolion gael eu cefnogi/mentora gan y SCA neu weithiwr proffesiynol priodol;
- lleoli a threfnu hyfforddiant neu ddarpariaeth addysgol amgen addas i'r disgyblion hynny yng Nghyfnod Allweddol 4 y mae'r ysgolion wedi'u hadnabod fel disgyblion sydd wedi "dadrithio";
